# Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018

**2018 dccc 1**

*Diddymu'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael*

## 6 Diddymu'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael E+W

(1) Nid yw'r hawliau a ganlyn yn bodoli mwyach mewn perthynas ag anheddau yng Nghymru—

(a) yr hawl i gaffael rhydd-ddaliad tŷ annedd, na'r hawl i gael les ar dŷ annedd, yn unol â Rhan 5 o Ddeddf Tai 1985 (Housing Act 1985 (c. 68)) (yr hawl i brynu);

(b) yr hawl i gaffael annedd yn unol ag adran 16 o Ddeddf Tai 1996 (Housing Act 1996 (c. 52)) (yr hawl i gaffael).

(2) Yn unol â hynny, diddymir y deddfiadau a ganlyn—

(a) adrannau 2 a 3 o'r Ddeddf hon (cyfyngiad ar arfer yr hawl i brynu etc.), ac adrannau 121ZA, 121ZB a 171B(7) o Ddeddf Tai 1985 (a fewnosodir gan adrannau 2 a 3 o'r Ddeddf hon);

(b) adrannau 4 a 5 o'r Ddeddf hon (cyfyngiad ar arfer yr hawl i gaffael etc.), ac adrannau 16B, 16C ac 21(2A) o Ddeddf Tai 1996 (a fewnosodir gan adrannau 4 a 5 o'r Ddeddf hon);

(c) adran 8 o'r Ddeddf hon.

(3) Mae Atodlen 1 (sy'n gwneud diwygiadau a diddymiadau canlyniadol) yn cael effaith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 11(3)**

**I2** A. 6 mewn grym ar 26.1.2019 gan O.S. 2018/100, **ergl. 2(a)** (ynghyd ag ergl. 3)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 26/01/2019.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018, Adran 6 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.